

# PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 10 Gorffennaf, 2024

### YN BRESENNOL:

Y Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)  
Y Cynghorydd Gwilym O Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Non Dafydd, Jeff M Evans, Euryr Morris, Pip O'Neill, Derek Owen, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor a Sonia Williams

### Aelod Portffolio

Y Cynghorydd Carwyn Jones – Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer (ar gyfer eitem 5)

### WRTH LAW:

Prif Weithredwr,  
Dirprwy Brif Weithredwr,  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,  
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,  
Rheolwr Sgriwtini,  
Swyddog Sgriwtini (EA),  
Swyddog Pwyllgor (MEH).

### YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorydd John Ifan Jones

Mrs Wenda Owen – Yr Eglwys yng Nghymru;  
Mrs Gillian Thompson – Rhiant Lywodraethwr – Ysgolion Cynradd;  
Mr John Tierney – Yr Eglwys Gatholig Rufeinig

### Aelod Portffolio

Y Cynghorydd Neville Evans – Aelod Portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;

Pennaeth Democratiaeth;

Ms Dawn Docx – Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (ar gyfer eitem 3).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Rheolwr Bwrdd Rhaglen Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn (ST) (ar gyfer eitem 5 yn unig).

Mr Stewart Forshaw, Mr Anthony Jones a Mr Eilian Roberts – Gwasanaethau Tân ac Achub Gogledd Cymru (ar gyfer eitem 3)

yn unig).

Mr Jason Killens a Ms Estelle Hitchon – Gwasanaeth Ambiwylans Cymru (ar gyfer eitem 4 yn unig)

### **Aelodau Portffolio**

Y Cynghorydd Gary Pritchard – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Plant, Ieuenctid a Gwasanaethau Tai;  
Y Cynghorydd Dafydd Roberts – Aelod Portffolio Addysg a'r Gymraeg;  
Y Cynghorydd Dafydd R Thomas – Aelod Portffolio Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff;  
Y Cynghorydd Robin Williams – Dirprwy Arweinydd ac Aelod Portffolio Cyllid.

## **1 YMDDIHEURIADAU**

Fel y nodwyd uchod.

## **2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Datganodd y Cynghorydd Jeff Evans ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru.

Datganodd y Cynghorydd Euryrn Morris ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 5 – Adroddiad Blynyddol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn – 2023/2024, gan ei fod yn cael ei gyflogi gan Gyngor Gwynedd.

Datganodd y Cynghorydd Dylan Rees ddiddordeb personol mewn perthynas ag Eitem 3 – Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, gan ei fod yn Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Rees, er ei fod yn datgan diddordeb personol, roedd yn credu y byddai'n briodol iddo adael y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem hon.

## **3 GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Gan fod y Cadeirydd wedi datgan diddordeb a gadael y cyfarfod, camodd yr Is-gadeirydd i'r Gadair ar gyfer yr eitem hon yn unig.

Etholwyd y Cynghorydd Margaret M Roberts i wasanaethu fel Is-gadeirydd ar gyfer yr eitem hon yn unig.

Croesawodd yr Is-gadeirydd yn y Gadair Mr Stewart Forshaw, Dirprwy Brif Swyddog Tân, Mr Anthony Jones, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid a Mr Eilian Roberts, Rheolwr Ardal ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i'r cyfarfod.

Cafwyd cyflwyniad gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân ar broffil Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Gorsafoedd Tân Ynys Môn, Cyllid Awdurdod Lleol, Gwaith Partneriaeth, Diogelwch Tân i Fusnesau ac Ymgysylltu Cymunedol.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Roedd yr Is-gadeirydd eisiau cael gwybod pa heriau allai wynebu'r Gwasanaeth Tân ac Achub pe byddai argyfwng yn digwydd ar yr Ynys a'r ddwy bont dros y Fenai ar gau. Dywedodd y Rheolwr Ardal bod y pontydd wedi gorfod cau oherwydd gwyntoedd cryfion yn y gorffennol ac mae pryder y gallai hyn ddigwydd yn fwy aml wrth i batrymau tywydd newid yn sgil newid yn yr hinsawdd. Nododd fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn credu ei bod yn bwysig pwysu am drydedd bont dros y Fenai. Roedd y Prif Weithredwr yn gwerthfawrogi cefnogaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub i ymgyrch yr awdurdod am drydedd bont gan fod pryder am wytnwch y pontydd. Mae poblogaeth yr ynys yn codi'n aruthrol yn ystod y cyfnod gwyliau prysur a Phorthladd Caergybi yw'r porthladd prysuraf yng Nghymru. Nododd y byddai unrhyw ddata ac enghreifftiau y gallai'r Gwasanaeth Tân ac Achub eu rhannu yn cefnogi ac yn cryfhau'r ymgyrch am drydedd bont.
- Nodwyd bod y rhan fwyaf o Orsafoedd Tân ar Ynys Môn wedi'u rhestru fel rhai 'ar alw' yn unig ac mae cyfraddau argaeledd yn ystod y dydd yn isel. Gofynnwyd i ba raddau mae hyn yn creu risg i drigolion a pha gynlluniau sydd ar waith i wella argaeledd ledled yr Ynys yn y dyfodol. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod argaeledd Swyddogion Tân yn ystod y dydd yn gallu bod yn heriol, ond mae'n cymryd 13 munud ar gyfartaledd i ymateb i dân ar Ynys Môn. Mae Gorsaf Dân Caergybi ar gael bob dydd ac mae'n bosib cael cefnogaeth gan ail injan dân o'r tir mawr. Nododd bod y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi Adolygu'r Ddarpariaeth Frys yn ddiweddar ac un o'r opsiynau a gyflwynwyd gan yr Awdurdod Tân oedd gwneud Gorsaf Dân Llangefni yn orsaf ddydd yn unig, ond gwrthodwyd y cynnig. Er hynny, mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i ystyried y 3 lleoliad mwyaf addas ar gyfer gwasanaeth amser cyflawn ar hyd a lled Gogledd Cymru. Holwyd hefyd am anawsterau recriwtio gweithwyr mewn ardaloedd gwledig. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod recriwtio mewn ardaloedd gwledig yn gallu bod yn heriol, yn enwedig o ran argaeledd yn ystod y dydd. Roedd yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys wedi ystyried darparu gorsafoedd tân amser cyflawn mewn ardaloedd gwledig er mwyn sicrhau cynaliadwyedd a chynnig cyfleoedd gwaith o fewn y cymunedau hynny, ac yn enwedig mewn ardaloedd Cymraeg eu hiaith.
- Gofynnwyd a oedd y Gwasanaeth Tân ac Achub yn ymweld ag ysgolion a cholegau i hyrwyddo llwybrau gyrfaedd o fewn y Gwasanaeth Tân. Gofynnwyd hefyd a yw'r Gwasanaeth Tân yn cysylltu â busnesau lleol i drafod rhyddhau staff sy'n ystyried gweithio gyda'r Gwasanaeth Tân mewn rôl rhan amser. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn recriwtio'n barhaus ac mae wedi ymrwmo hefyd i ddenu merched i'r gwasanaeth. Dywedodd hefyd y byddai'n her i fusnesau ryddhau staff yn ystod y dydd oherwydd cyfyngiadau ariannol. Mae gan y Gwasanaeth Tân ac Achub gynllun Cadetiaid Tân llwyddiannus ym Mhorthaethwy ar gyfer pobl ifanc rhwng 12 ac 16 oed ac maent yn gallu ennill Dyfarniad Lefel 1 i 3 yn y pwnc 'Gwasanaeth Tân ac Achub'. Cyfeiriodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân at y

Prosiect Ffenics lle mae pobl ifanc yn cael eu rhyddhau o'r ysgol am wythnos i gymryd rhan mewn gweithgareddau gwerth chweil fydd yn eu cynorthwyo i ennill parch ac integreiddio yn eu cymunedau, yn ogystal â'u cyflwyno i'r rolau a'r cyfleoedd sy'n bodoli o fewn y Gwasanaeth Tân.

- Gofynnwyd cwestiynau am ddilyniant gyrfa o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y byddai'r Gwasanaeth Tân yn hysbysebu cyfleoedd gyrfa yn ystod yr wythnosau nesaf. Nododd fod gyrfa o fewn y Gwasanaeth Tân ac Achub yn un gwerth chweil ac mae'r Gwasanaeth yn annog gweithwyr i ddatblygu eu gyrfaedd. Gofynnwyd cwestiynau am nifer uchel y swyddi diffoddwyr tân wrth gefn a rolau gwirfoddoli a geir o fewn Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân mai swyddi wrth gefn sydd i'w cael yn bennaf yn y gorsafoedd tân ar Ynys Môn ond mae Diffoddwyr Tân llawn amser wedi'u lleoli yng Ngorsaf Dân Caergybi.
- Gofynnwyd sut mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru'n delio gyda galwadau tân diangen a pha ganran o alwadau diangen y gellir codi tal amdanynt? Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân bod y galwadau diangen yn bennaf yn gysylltiedig â safleoedd busnes ac ni ellir codi tâl amdanynt.
- Yn ystod y cyflwyniad cyfeiriwyd at gynllunio a chynnal ymarferion ar y cyd â phartneriaid ar safle Wylfa. Gofynnwyd ym mha ardaloedd eraill y bwriedir trefnu ymarferion. Dywedodd y Rheolwr Ardal bod ymarferion lleol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac mae ymarferion ar raddfa fawr yn cael eu cynnal ar safle'r Llu Awyr Brenhinol yn y Fali ac ar safle Wylfa, ar y cyd â nifer o sefydliadau eraill. Mae Porthladd Caergybi wedi'i gynnwys yn y rhaglen ymarferion lleol hefyd, ac mae ymarferion rheolaidd yn cael eu cynnal fel rhan o'r rhaglen honno. Mae hyfforddiant yn cael ei gynnal hefyd ar gyfer y posibilrwydd o lifogydd difrifol ac mae ymarferion yn cael eu cynnal ar y Fenai. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod y Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub yn gosod dyletswydd ar y Gwasanaeth Tân i gasglu a chynnal gwybodaeth am unrhyw risgiau hysbys; mae Swyddogion Tân yn adolygu risgiau ar safleoedd yn rheolaidd, h.y. Porthladd Caergybi. Dywedodd y Prif Weithredwr fod cwestiynau wedi'u gofyn mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor hwn am y risg o dân yng Nghoedwig Niwbwrch a gallu'r gwasanaethau tân i gyrraedd y goedwig oherwydd y problemau traffig sy'n bodoli, yn enwedig yn ystod y tymor gwyliau pan fydd pobl yn ymweld â'r ardal. Dywedodd y Swyddog Ardal fod cynlluniau tactegol ar waith i sicrhau fod y Gwasanaeth Tân yn gallu ymateb i ddigwyddiadau all godi ac mae cerbydau arbenigol yn cael eu hanfon i ddigwyddiadau o'r fath. Ychwanegodd bod y Gwasanaeth yn ymweld yn aml â Choedwig Niwbwrch, ar y cyd ag asiantaethau eraill megis Cyfoeth Naturiol Cymru.
- Cyfeiriwyd at bryderon na fyddai'r Gwasanaeth Tân yn gallu cyrraedd ardaloedd gwledig ar yr Ynys o fewn y cyfnod ymateb penodol o 20 munud a'r posibilrwydd y gallai pobl farw oherwydd hynny. Dywedodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y byddai injans tân o'r tir mawr hefyd yn cynorthwyo criwiau ar yr Ynys mewn ardaloedd sy'n anoddach eu cyrraedd o fewn y cyfnod ymateb penodol o 20 munud. Nododd mai pwrpas yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys oedd adolygu a gwella gweithdrefnau presennol y Gwasanaeth Tân a newid systemau dyletswydd yn y gorsafoedd tân amser cyflawn er mwyn rhyddhau ymladdwyr tân llawn amser i weithio mewn ardaloedd gwledig. Ychwanegodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod 18 injan dân

ar gael bob dydd o fewn y rhanbarth. Gellir symud injans tân i leoliadau mwy strategol os cyfyd yr angen.

## **PENDERFYNWYD diolch i'r cynrychiolwyr o Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru am fynychu'r cyfarfod.**

### **4 YMDDIRIEDOLAETH GIG GWASANAETHAU AMBIWLANS CYMRU**

Croesawodd y Cadeirydd Mr Jason Killens, Prif Weithredwr Gwasanaethau Ambiwllans Cymru, a Ms Estelle Hitchon, Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu, i'r cyfarfod.

Trafodwyd y pwyntiau canlynol gan y Pwyllgor:-

- Gofynnwyd pa mor hir mae cleifion o Fôn yn gorfod disgwyl am ambiwlans yn dilyn galwad frys a pha gynlluniau sydd ar waith i wella amseroedd ymateb. Dywedodd Prif Weithredwr Gwasanaethau Ambiwllans Cymru fod hyn yn dibynnu ar gategori'r alwad frys ac o ble mae'r ambiwlans yn ymateb i'r alwad. Nododd na fydd yr ambiwlans yn cychwyn o'r Orsaf Ambiwllans fel arfer, ond yn hytrach o Adran Frys ar ôl i'r criw orffen yr alwad frys ar gyfer y claf blaenorol. Yr amser ymateb ar gyfer cleifion y bernir bod angen cymorth brys arnynt (categori coch), h.y., trawiad ar y galon, strôc a chleifion sy'n anymwybodol, yw 8 munud mewn 65% o alwadau. Nid yw'r targed yn cael ei gyrraedd ar hyn o bryd, yn genedlaethol nac yn lleol, a'r amser ymateb yw 10 munud, er bod yr amser yn amrywio yn ystod y dydd a'r nos. Ychwanegodd y Prif Weithredwr bod y Gwasanaethau Ambiwllans wedi buddsoddi'n sylweddol yn ystod y 4 blynedd diwethaf, ar ôl derbyn arian gan Lywodraeth Cymru, er mwyn recriwtio dros 400 o glinigwyr rheng flaen i'r gwasanaeth. Er hynny, mae galwadau brys sy'n cael eu categorio fel rhai lle mae bywyd yn y fantol wedi dyblu, a bu oedi sylweddol wrth drosglwyddo cleifion i Adrannau Brys ar hyd a lled ardal Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr. Er bod y Gwasanaethau Ambiwllans wedi buddsoddi i wella'r gwasanaeth a gwella effeithlonrwydd, gyda pharafeddygon a chlinigwyr wedi'u lleoli mewn cymunedau i drin cleifion nad oes angen mynd â nhw i'r ysbyty mewn ambiwlans, mae pwysau o hyd ar y Gwasanaeth Ambiwllans. Dywedodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu fod staff yn cael eu datblygu ar yr Ynys, gyda Thechnegwyr Meddygol Brys yn hyfforddi i fod yn Barafeddygon. Mae 2 Barafeddyg wedi ymuno â'r tîm ar Ynys Môn a bydd hynny'n caniatáu i gleifion gael eu trin gan staff sydd wedi cymhwyso'n llawn ac efallai na fydd angen eu cludo i'r ysbyty. Gofynnwyd cwestiynau pellach am gleifion sy'n gorfod aros oriau i ambiwlans gyrraedd. Roedd y Prif Weithredwr yn cytuno bod rhai cleifion, nad yw eu bywyd mewn perygl, yn gorfod aros am amser hir i'r ambiwlans gyrraedd a'u bod yn gorfod aros yn yr ambiwlans tu allan i adrannau brys am gryn amser. Er hynny, mae'n adlewyrchu'r sefyllfa sydd ohoni o ran gofal brys a gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion.
- Gofynnwyd beth yw'r trefniadau ar gyfer blaenoriaethu galwadau pan fydd galw sylweddol am y Gwasanaeth Ambiwllans. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr holl alwadau 999 yn cael eu categorio yn ôl faint o amser a gymer y gwasanaeth brys i ymateb. Mae oedi hir wrth drosglwyddo cleifion i adrannau brys ac mae ambiwlansys yn ciwio tu allan i'r adrannau brys, ac mae hynny'n

creu rhagor o oedi wrth ymateb i alwadau brys eraill. Llif cleifion trwy'r ysbytai sydd i gyfrif am yr oedi wrth drosglwyddo cleifion, ac mae cleifion sy'n ddigon iach i gael eu rhyddhau o'r ysbyty yn llenwi'r gwelyau. Problemau yn y system ofal cymdeithasol i oedolion sydd i gyfrif am hyn, oherwydd pwysau o ran darparu pecynnau gofal er mwyn caniatáu i gleifion ddychwelyd adref.

- Gofynnwyd beth yw'r amseroedd aros cyfartalog mewn ambiwlans tu allan i'r Adran Frys yn Ysbyty Gwynedd a sut mae'r amseroedd aros yn cymharu ag adrannau Brys eraill yn yr ardal. Gofynnwyd hefyd i ba raddau allai cydweithio gyda'r sector gofal cymdeithasol liniaru neu leihau amseroedd aros. Dywedodd y Prif Weithredwr mai'r amser targed ar gyfer trosglwyddo cleifion i Adrannau Brys yw 15 munud, a'r disgwyl yw y byddai criw'r ambiwlans yn treulio 15 munud arall yn glanhau a pharatoi ar gyfer eu claf nesaf. Fodd bynnag, yng Nghymru mae'n cymryd 2 awr ar gyfartaledd i drosglwyddo cleifion a pharatoi ar gyfer y claf nesaf, ond mae Gogledd Cymru'n ardal heriol o safbwynt trosglwyddo cleifion i'r ysbyty. Dywedodd hefyd fod ar gyfartaledd 1,500 o gleifion y dydd ar hyd a lled Cymru ddylai fod yn derbyn gofal yn ddiogel yn eu cymunedau lleol. Dywedodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu fod y Bwrdd Iechyd a'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol yn wynebu galw cynyddol am ofal cymdeithasol ac mae angen i gleifion fod yn ddiogel yn eu cartrefi. Cyfeiriodd y Pwyllgor at ddarparwyr amgen sy'n darparu cludiant i gleifion, h.y. Môn Medics a Medic 1. Gofynnwyd a fyddai'r darparwyr hyn yn gallu cynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwllans a lleihau amseroedd aros. Dywedodd y Prif Weithredwr fod y Gwasanaeth Ambiwllans yn darparu gwasanaeth trosglwyddo cleifion ac mae'n gofalu am gleifion nad oes angen gofal brys arnynt, yn ogystal ag ymateb i alwadau brys. Mae'r Gwasanaeth Ambiwllans yn darparu'r system ofal brys GIG 111. Defnyddir gwirfoddolwyr yn helaeth ar hyd a lled Gogledd a Gorllewin Cymru i gludo cleifion i apwyntiadau a drefnwyd (nad ydynt yn alwadau brys). Mae gwirfoddolwyr sydd wedi cael eu hyfforddi ac wedi derbyn cyfarpar gan y Gwasanaeth Ambiwllans yn gweithio fel Ymatebwyr Cyntaf ac Ymatebwyr Lles mewn cymunedau lleol ac maent ar gael i ddelio gydag argyfyngau lle mae bywyd yn y fantol cyn i'r ambiwlans gyrraedd. Cyfeiriodd at ddarparwyr tu allan i'r GIG sydd â chapasiti cyfyngedig. Nid yw'r Gwasanaethau Ambiwllans yn defnyddio darparwyr tu allan i'r GIG ar gyfer galwadau brys fel rheol, oherwydd ansawdd a diogelwch y gwasanaethau a ddarperir o gymharu â'r safon ofynnol. Nododd na fyddai cael ambiwlansys ychwanegol i gludo cleifion i adrannau brys yn lliniaru'r problemau sy'n bodoli o ran amseroedd aros.
- Gofynnwyd pa ganran o staff y Gwasanaeth Ambiwllans sy'n gweithio gyda chleifion ar Ynys Môn sy'n siarad Cymraeg. Dywedodd y Prif Weithredwr bod staff ledled y rhanbarth yn cael eu hannog a'u cefnogi i ddysgu Cymraeg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Partneriaethau ac Ymgysylltu fod y Gwasanaethau Ambiwllans wedi dod yn ddarostyngedig i'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn ddiweddar a'r blaenoriaethau fydd yn cael sylw yw sut i ddatblygu staff yn lleol ac annog pobl ifanc i ymuno â'r Gwasanaeth Ambiwllans mewn gyrfaoedd ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Roedd rhaid i gynrychiolwyr Gwasanaethau Ambiwllans Cymru fynychu cyfarfod arall ond cytunont i ddarparu ymateb ysgrifenedig i'r cwestiynau eraill yr oedd y Pwyllgor yn dymuno iddynt eu hateb.

**PENDERFYNWYD diolch i'r cynrychiolwyr o Wasanaethau Ambiwylans Cymru am fynychu'r cyfarfod.**

**GWEITHRED : Bod gweddill cwestiynau'r Pwyllgor yn cael eu hanfon at Brif Weithredwr Gwasanaethau Ambiwylans Cymru er mwyn derbyn ymateb ysgrifenedig ganddo.**

**5 ADRODDIAD BLYNYDDOL BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS  
GWYNEDD AC YNYS MÔN: 2023/24**

Cyflwynwyd – adroddiad gan y Prif Weithredwr i'r Pwyllgor ei ystyried.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer yn cyflwyno'r adroddiad gan fod y Cynghorydd Llinos Medi wedi ymddiswyddo fel Arweinydd y Cyngor ar ôl iddi gael ei hethol yn Aelod Seneddol ar gyfer Ynys Môn. Llongyfarchodd y Pwyllgor y Cynghorydd Llinos Medi ar gael ei hethol a thalwyd teyrnged iddi am ei gwaith er budd trigolion Môn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer ei fod yn dymuno diolch i'r Cynghorydd Llinos Medi am ei gwaith ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Nododd fod yr adroddiad yn adlewyrchu'r hyn a gyflawnwyd gan y Bwrdd er mwyn gwella llesiant cymunedau yn ystod 2023/2024. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Roedd y Ddeddf hefyd yn sefydlu'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus sy'n cynnwys cynrychiolwyr o gyrff cyhoeddus a'r trydydd sector. Cyfeiriodd at amcanion llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn, sef lliniaru effaith tlodi; gwella cyflawniad plant a phobl ifanc a chefnogi cymunedau i symud tuag at sero net. Ychwanegodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer fod y blaenoriaethau'n cyd-fynd â Chynllun Llesiant ac amcanion y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus mewn perthynas â'r Cynllun Pwysau Iach a'r Iaith Gymraeg. Cyfeiriodd at esiamplau o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

Trafododd y Pwyllgor y pwyntiau canlynol:-

- Nodwyd bod yr Adroddiad Blynyddol yn trafod blwyddyn gyntaf y Cynllun Llesiant : 2023-2028. Holwyd pa werth ychwanegol mae gwaith partneriaeth wedi'i greu. Dywedodd Rheolwr Rhaglen Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn bod holl aelodau'r Bwrdd wedi dangos parodrwydd i weithio mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus er mwyn gwella'r blaenoriaethau a llesiant trigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r sefydliadau partner yn gallu rhannu profiadau ac enghreifftiau o waith sydd wedi arwain at welliant sylweddol dros y blynyddoedd. Rhannodd esiamplau o'r gwaith a gyflawnwyd gan y Bwrdd o ran mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu sefydliadau wrth recriwtio a chadw staff sy'n siarad Gymraeg ac mae 17 o sefydliadau wedi rhannu eu harfer dda o ran recriwtio staff. Gofynnwyd tybed ai'r strwythur cyflog yw'r rheswm bod pobl ifanc yn gadael yr Ynys. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen nad graddfeydd cyflog swyddi yw'r prif reswm sy'n atal pobl rhag ymgeisio am swyddi yn yr 17 sefydliad y bu'r Bwrdd yn trafod â nhw. Mae

nifer o'r problemau recriwtio'n rhai ymarferol, h.y., efallai bod y swydd ddisgrifiad yn arwain pobl i feddwl nad yw eu sgiliau iaith yn ddigon da. Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen hefyd at y Cynllun Teithio Llesol y bu'r Bwrdd yn ei drafod. Cyngor Sir Ynys Môn sydd wedi arwain y gwaith hwn ac mae wedi rhannu arfer dda gyda sefydliadau eraill sy'n aelodau o'r Bwrdd.

- Holwyd beth yw lle'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o fewn y strwythurau partneriaeth rhanbarthol cymhleth sy'n bodoli a sut mae gwneud y gorau o gydweithio er mwyn osgoi dyblygu nifer o'i ffrydiau gwaith. Mewn ymateb, dywedodd y Rheolwr Rhaglen fod Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn yn benderfynol o beidio â dyblygu ffrydiau gwaith sefydliadau partner. Fel enghraifft, dywedodd bod y Bwrdd wedi mabwysiadu'r dull system gyfan mewn perthynas â'r flaenoriaeth Pwysau lach ac wedi'i ymgorffori yng ngwaith y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn ychwanegu gwerth at y gwaith sy'n cael ei wneud ac osgoi dyblygu. Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen at y gwaith sy'n mynd rhagddo ar y Gymraeg a gwaith y Bwrdd gyda'r prosiect ARFOR a Chomisiynydd y Gymraeg, er mwyn cynorthwyo i greu mwy o gyfleoedd a gwella'r defnydd o'r Gymraeg. Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer bod sefydliadau partner wedi rhannu eu gwaith ar 'sero net' ac mae hyn yn cynorthwyo'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu profiadau ac enghreifftiau o arfer dda.
- Holwyd pa gyfleoedd, heriau a risgiau sy'n wynebu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn y dyfodol? Rhannodd y Rheolwr Rhaglen enghreifftiau o waith y Bwrdd o ran cyd-lobio ar faterion strategol, h.y., gwahoddwyd Mr Ken Skates AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth, i gyfarfod nesaf y Bwrdd i drafod y posibilrwydd o drydydd croesiad dros y Fenai. Dywedodd bod y Rhwydwaith Teithio Gwledig yn broblem mewn cymunedau gwledig. Cyfeiriodd hefyd at yr heriau sy'n wynebu'r Bwrdd o ran denu adnoddau ariannol rhanbarthol ac mae angen i'r Bwrdd fod ar flaen y gad o ran denu cyllid rhanbarthol. Cyfeiriodd y Rheolwr Rhaglen at y perygl o ddyblygu, fel y nodwyd yn flaenorol.
- Gofynnwyd i ba raddau mae'r argyfwng costau byw wedi effeithio ar allu partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflawni yn erbyn y targedau allweddol. Dywedodd y Rheolwr Rhaglen bod yr argyfwng costau byw wedi cael effaith sylweddol ar waith y Bwrdd. Mae blaenoriaethau'r Cynllun Llesiant wedi'u llunio i gydnabod effaith yr argyfwng costau byw ar gymunedau lleol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023/2024 a nodi cynnydd yn erbyn Cynllun Llesiant 2023-2028 a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2023.**

**GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.**

## **6 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR - 2024/2025**

Cyflwynwyd, i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini a oedd yn amlinellu Blaen Raglen Waith ddangosol y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio ar gyfer 2024/2025.

**PENDERFYNWYD:-**



- Cytuno ar fersiwn gyfredol y flaen raglen waith ar gyfer 2024/2025;
- Nodi cynnydd hyd yma wrth weithredu'r flaen raglen waith.

**Y CYNGHORYDD DYLAN REES  
CADEIRYDD**

**Y CYNGHORYDD GWILYM O JONES  
IS-GADEIRYDD YN Y GADAIR AR GYFER EITEM 3 YN UNIG**